

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No 25 (misnumbered 24)	
English	Cymraeg
Int 354 DL39	
Salmon Spear	Gwaywffon eog
A salmon spear (or leister) is made with three or more prongs and backward-facing barbed points to pierce and secure the fish. It differs from an eel spear which has rounded points so the eels can be caught between the tines (prongs) without damaging the body and thereby reducing their value.	Gwneir gwaywffon eog (neu dryfer) gyda thri phigyn neu fwy a phigau bachog sy'n wynebu ar yn ôl i dreiddio i'r pysgod a'i ddal yn dynn. Mae'n wahanol i waywffyn llusywennod sydd â phigau crwn fel bod modd dal y llusywen rhwng y dannedd heb niweidio'r corff sy'n lleihau ei gwerth.
Gift Lord Glanusk - 332	Rhoddd Yr Arglwydd Glanusk - 332
Int339 DL26	
Sack trolley	Troli sachau
This sack trolley was made by the prestigious agricultural machine makers, Hodges & Wright, of Ship Street, Brecon. Although the Brecknockshire Agricultural Society said in 1844 that the company was 'decidedly amongst the first on the list of agricultural machine makers', it went bankrupt in 1872. Possibly used at Brecon Train Station.	Gwnaed y troli sachau hwn gan y gwneuthurwyr peiriannau amaethyddol o fri Hodges & Wright o Heol y Defaid, Aberhonddu. Er i Gymdeithas Amaethyddol Sir Frycheiniog ddweud ym 1844 bod y cwmni 'bendant ymysg y blaenaf ar y rhestr o wneuthurwyr peiriannau amaethyddol', aeth yr hwch drwy'r siop a methodd y busnes ym 1872. Mae'n debyg i'r troli gael ei ddefnyddio yng Ngorsaf Drên Aberhonddu.
Mr G. Davies, Llangynidr – 2014.59	Mr G. Davies, Llangynidr – 2014.59
Int224 DL40	
Staffordshire earthenware dog	Ci priddwaith Swydd Stafford
Pairs of earthenware spaniels, also called 'pot dogs' or 'china dogs' were made in Staffordshire for the mass Victorian market. They were made by pouring liquid clay called 'slip' into moulds and fired when dry, then glazed and fired again before decorating. Pairs of dogs commonly adorned mantelpieces and window sills.	Gwnaethpwyd parau o sbaengwn, a adwaenir hefyd fel 'cŵn pot' neu 'gŵn tsieina' yn Swydd Stafford ar gyfer y farchnad dorfol Fictoraidd. Fe'u gwnaethpwyd trwy arllwys clai gwlyb o'r enw 'slip' i mewn i fowldiau a'u tanio pan oedden nhw'n sych. Wedyn byddent yn cael eu gwydro a'u tanio eto cyn cael eu haddurno. Roedd hi'n gyffredin gosod parau o gŵn ar fentyll tân a silffoedd ffenestri.
741.1&2	741.1&2
Int343 DL30	
Powder flask	Fflasg bowdr
This powder flask made of stag's horn dates from the 16 th century and would have contained gunpowder, an essential part of shooting equipment. It was discovered in the late Victorian period	Gwnaed y fflasg bowdr hon o gorn carw ac mae'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. Byddai wedi cynnwys powdwr gwn, rhan hanfodol o offer saethu. Fe'i darganfuwyd yn hwyr yn y cyfnod Fictoraidd yn ystod gwaith

during excavations near Hay-on-Wye station. It is carved on one side with a picture of Jesus and the woman of Samaria at the well. Gift Mrs L. Dawson – 1145.1	cloddio ger gorsaf Y Gelli Gandryll. Mae wedi'i cherfio â llun o Iesu ar un ochr a'r ferch o Samaria wrth y ffynnon. Rhodd oddi wrth Mrs L. Dawson - 1145.1
Int353 DL39	
Riding crop	Carn marchogaeth
This bone handled hunting crop or whip was presented by Sir Joseph Bailey of Glanusk to William Martin, a huntsman for the Breconshire Harriers in about 1840. The handle is inscribed with crosses, above a silver band which has the initials WM and a date from the 19 th century which cannot be deciphered. Gift Dr C. Armstrong – 273.1	Rhodd oddi wrth Dr C. Armstrong – 273.1 Cyflwynwyd y chwip hela hon sydd â charn asgwrn gan Syr Joseph Bailey o lan wysg i William Martin, un o helwyr Sir Frycheiniog tua 1840. Gwelir arysgrifen croesau ar y carn, uwchben cengl arian gyda'r llythrennau cyntaf WM a dyddiad o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond nid oes modd datrys ystyr y llythrennau. Rhodd Dr C. Armstrong – 273.1
Int19 DL38/39	
Painted salmon	Eog peintiedig
Painted around 1782, this wooden sign records a monster salmon ' <i>Caught near the Tower of Usk, in the year 1782, Wt 68 ½ Lbs</i> '. The Tower of Usk stands at Scethrog about four miles east of Brecon. If this weight is correct, this salmon is the largest ever caught in the UK. Gift Col J.C. Lloyd, Brecon - 1063	Wedi ei beintio tua 1782, mae'r arwydd pren hwn yn cofnodi eog anferth 'a ddaliwyd ger Tŵr Wysg, yn y flwyddyn 1782 gan bwysu 68 pwys a hanner'. Mae Tŵr Wysg yn sefyll ger Scethrog tua phedair milltir i'r dwyrain o Aberhonddu. Os yw ei bwysau'n gywir, hwn yw'r eog trymaf a ddaliwyd yn y Deyrnas Unedig erioed. Rhodd oddi wrth Col J.C. Lloyd, Aberhonddu - 1063
Int29 DL35	
Eisteddfod Chair	CADAIR EISTEDDFODOL
This bardic chair was awarded to R. J. Stevens of Builth Wells at the Aberhonddu (Brecon) Eisteddfod in 1928. Stevens was born in 1897 in Llanelwedd, Radnorshire. He is listed as one of 100 men recruited in September 1914 to join the Radnorshire section of the King's Shropshire Light Infantry. Gift Col J.C. Lloyd, Brecon – 1982.54	Dyfarnwyd y gadair farddol hon i R.J. Stevens o Lanfair-ym-Muallt yn Eisteddfod Aberhonddu ym 1928. Ganed Stevens ym 1897 yn Llanelwedd, Sir Faesyfed. Fe'i rhestrwyd yn un o gant o ddynion a listiwyd ym mis Medi 1914 i ymuno ag adran Sir Faesyfed Troedfilwyr Ysgafn Swydd Amwythig y Brenin. Rhodd oddi wrth Col J.C. Lloyd, Aberhonddu – 1982.54
Int44 DL38/39	
Silver presentation cup	Cwpan rhodd arian
This silver cup was presented by Fryer Bros Motor Agents of Brecon for a hill climb, 600 cc class event, held by the Brecon Motor Club. It was won by Mr A. O. Lewis in a time of one minute 27	Cyflwynwyd y cwpan arian gan Fryer Bros Motor Agents o Aberhonddu ar gyfer ras riwiau, yn yr ornest dosbarth 600 cc a gynhaliwyd gan Glwb Moduro Aberhonddu. Mr A. O. Lewis oedd yr enillydd gydag amser o un munud, 27 eiliad. Cynhaliwyd y digwyddiad ar

seconds. The event was held on August 10 th , 1921 on Warren Hill, Epynt. Gift Mr Havard, Brecon – 2011.39.1	10 Awst 1921 ar Fryn y Warren, ger Pennau, Epynt. Rhodd gan Mr Havard, Aberhonddu – 2011.39.1
Int136 DL12	
Portrait of Josef Herman Bernard Mitchell, signed 1997	Darlun o Josef Herman Bernard Mitchell, arwyddwyd 1997
This photograph was taken in 1996 when Bernard Mitchell visited Josef Herman (1911-2000) in his London studio. The session was commissioned by the National Library of Wales to record contemporary artists associated with Wales. The painting on the easel shows Herman is reworking ideas gained during his time at Ystradgynlais, with a silhouetted capped figure against a glowing sky. 2014.60.53.1	Tynnwyd y llun hwn ym 1966 pan ymwelodd Bernard Mitchell â Josef Herman (1911-2000) yn ei stiwdio yn Llundain. Comisiynwyd y sesiwn gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru i gofnodi artistiaid cyfoes oedd yn gysylltiedig â Chymru. Mae'r paentiad ar yr îsl yn dangos bod Herman yn ail-lunio syniadau a ddysgodd yn ystod ei amser yn Ystradgynlais, gydag amlinell ffigurwr â chap yn erbyn wybren dywynnol. 2014.60.53.1
Int312 DL03	
Portable medicine chest	Cist feddyginiaeth symudol
A fine mahogany portable pharmacist's chest, dating from the Victorian period. The contents of the bottles were supplied by Thomas Williams, a druggist, whose shop was in Market Street, Haverfordwest. The chest came from the family of Sir John Lloyd and was an early acquisitions by the Museum. Gift Col J.C. Lloyd, Brecon - 449	Cist fferyllydd symudol cain, a wnaed o fahogani yw hon sy'n dyddio o oes Fictoria. Darparwyd cynnwys y poteli gan Thomas Williams, fferyllydd a oedd yn cadw siop yn Stryd y Farchnad, Hwlfordd. Daeth y gist o deulu Syr John Lloyd ac roedd yn un o gaffaeliadau cynnar yr amgueddfa. Rhodd Cyrnol J.C. Lloyd, Aberhonddu - 449
Cyflwynwyd gan: Liz Bickerton	Dyddiad: 28/05/20
Geiriau: 538	
Cwblhawyd gan:	